Gwasanaeth Ynni
Energy Service

# Nodyn cyfarwyddyd ymgysylltu â rhanddeiliaid

## Cyflwyniad

Mae datblygu prosiectau datgarboneiddio yn y sector cyhoeddus yn dasg heriol. Mae'n ofynnol i randdeiliaid mewnol ac allanol lluosog sicrhau momentwm a chyflawni unrhyw brosiect yn llwyddiannus, boed yn brosiect mesurau effeithlonrwydd ynni neu'n brosiect ynni adnewyddadwy mawr.

Nod y nodyn cyfarwyddyd hwn yw darparu astudiaethau achos ac enghreifftiau defnyddiol o sut i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid cywir ar yr adeg gywir, er mwyn cynnal ymgysylltiad o'r cychwyn hyd at gyflawni, i'r gwaith monitro.

Ar hyn o bryd, mae uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus gyrraedd Sero Net erbyn 2030 yng nghyd-destun argyfwng costau byw, bylchau enfawr yng nghyllidebau Llywodraeth Leol ac adnoddau sydd dan gryn bwysau gyda blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Nod Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yw helpu i ddarparu gallu a chapasiti i'r sector cyhoeddus i gyrraedd yr amcanion uchelgeisiol hyn a gallwn ni eich helpu chi mewn amrywiaeth o ffyrdd, felly cysylltwch â ni.

## Ystyriaethau allweddol – cylch bywyd y prosiect

Bydd ystyried ble rydych chi yng nghylch bywyd eich prosiect yn eich helpu i benderfynu ar ba fath o weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid y bydd angen i chi ei wneud. Os nad ydych wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn unrhyw ffordd ystyrlon eto ond rydych ran o'r ffordd drwy'r prosiect, does dim ots o gwbl. Isod, byddwn yn bwrw golwg ar rai astudiaethau achos go iawn ac yn adolygu camau a gymerwyd yn seiliedig ar ble roeddent yng nghylch bywyd y prosiect.

Yn ystod y cam cynnar, efallai mai dim ond syniad fydd gennych, neu strategaeth rydych yn gweithio yn unol â hi. O'r cam cynnar hwn, byddwch am sicrhau eich bod wedi deall pwy yw eich rhanddeiliaid allweddol, e.e. aelodau, uwch-arweinwyr, penaethiaid gwasanaeth, a byddwch am wneud yn siŵr bod gennych ddigon o wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad ystyriol ar yr adeg briodol. Ystyriwch yn ofalus yr hyn rydych am ei gael gan bob person o ran cyflawni'r prosiect a sut i ymgysylltu â nhw ar wahanol adegau.

### *1.1.1. Dechrau prosiect*

- *Pwy ddylai fod yn rhan o'ch prosiect ar hyn o bryd?*
- *Beth yw'r rolau allweddol y bydd eu hangen arnoch i gyflawni eich prosiect? A yw'r rhain ar gael yn fewnol?*
- *Pwy yw'r penderfynwyr allweddol ar gyfer prosiect fel hwn yn eich sefydliad?*
- *A oes unrhyw un arall gerllaw sy'n gwneud rhywbeth tebyg?*

Byddwch hefyd yn dechrau meddwl am eich llwybr llywodraethu, y mathau o bapurau y bydd angen i chi eu paratoi a sut y gallai hyn effeithio ar eich amserlen ar gyfer cyflawni.

A oes sgiliau nad rydych chi'n meddwl sydd eu hangen arnoch nad ydynt ar gael i chi'n hawdd? Os felly, a allwch brynu'r rhain neu a oes opsiynau ariannu ar gael fel y Gwasanaeth Ynni? Mae'n bwysig ar y cam hwn i dderbyn cymaint o wybodaeth ag y gallwch oddi wrth gymdogion. Unwaith eto, gall y Gwasanaeth Ynni helpu gyda hyn drwy hwyluso prosesau rhannu gwybodaeth ymhlith cymheiriaid.

## Astudiaeth Achos: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Dechreuodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ymchwilio i rai prosiectau ynni adnewyddadwy yn 2022. Mae'r tîm yn fach ac â ffocws, ac mae'r safleoedd yn cael eu hadolygu, a'r canlyniadau yn cael eu hystyried. Mae grŵp penodedig yn cyfarfod bob mis i fireinio rhestr y safle. Darparodd y Gwasanaeth Ynni adroddiad dichonoldeb a thechnegol manwl iddo ystyried y camau nesaf o ran cyflawni prosiectau. Ar y pwynt hwn mae'r wybodaeth a'r tîm yn fach - nid oes prosiect gwirioneddol eto, dim ond rhai syniadau a thra bod y rheini'n cael eu mireinio mae'n ddefnyddiol cadw'r grŵp yn ystwyth ac â ffocws. Gallai eich "cylch dethol" gynnwys Arweinydd Cynaliadwyedd / Ynni, Partner Busnes Cyllid a rhywun â chefndir technegol / trydanol.

Efallai eich bod yn darparu diweddariadau rheolaidd i grŵp ehangach yn anaml ar lefel Cyfarwyddwr o bosibl. Bydd hyn yn galluogi cyfnod pontio didrafferth o'r cysyniad i'r dichonoldeb a hyd at gyflawni, ac yn ddelfrydol bydd fframwaith strategol ar waith y gallwch ei ddefnyddio i wneud y gwaith archwiliol hwn. Gallai'r rhwydwaith ehangach, gwybodus hwn gynnwys y penderfynwyr allweddol, tîm cyflawni'r prosiect, caffael (os na chaiff ei gynnwys fel rhan o'r tîm llai) ac unrhyw staff neu feysydd gwasanaeth allweddol sy'n debygol o gael eu heffeithio arnynt.

***"Roedd y syniad o gydgrynhoi rhestr hir o opsiynau ac wedyn cael dadansoddiad lefel uchel i'w gwtogi yn ddull defnyddiol iawn i ni. Gwelsom fod adeiladau ger brig ein rhestr nad oeddent yn addas a rhai nad oeddem wedi eu hystyried mewn gwirionedd."***

**Dan Priddy, Rheolwr Cyllid a Pherfformiad Busnes, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.**

### *1.1.2. Cynnal Momentwm*

Yn aml, hwn yw'r cyfnod mwyaf heriol i brosiect – maent yn dechrau'n wych ac yna'n ei chael hi'n anodd cynnal momentwm ac, weithiau, gallai hyn fod o ganlyniad i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

- *A oes gennych restr lawn o'ch holl randdeiliaid?*
- *Ydych chi wedi nodi pwy sy'n chwarae rhan allweddol, pwy y mae angen i chi ei gadw'n hapus, pwy y mae angen ymgynghori ag ef, a phwy y mae angen ei hysbysu? Mae'n bwysig deall pwy sy'n gwneud y gwahaniaeth rhwng gwneud i'ch prosiect lwyddo/methu.*
- *Ydych chi wedi ystyried y gwahaniaeth rhwng diddordeb a dylanwad ymhlith eich rhanddeiliaid? Dosbarthwch eich grŵp rhanddeiliaid yn gategorïau hylaw.*




- *Drafftiwch, adolygwch a defnyddiwch eich cynllun cyfathrebu.*
- *Ehangwch eich rhestr o randdeiliaid, ac yna'n ehangach fyth.*

## Astudiaeth achos: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

### Enghraifft o ehangu, yn gynnar, ac yn aml wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid a oedd yn ei osod ar wahân ac yn helpu i gynnal momentwm..

Mae Cyngor Caerffili wedi bod yn gweithio ar brosiect ynni adnewyddadwy ers dros dair blynedd ac yn gobeithio cyflwyno cais cynllunio eleni. Roedd yn dilyn yr un patrwm â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, gyda thîm bach, ymroddedig, â ffocws a dyfodd ar ôl cymeradwyo adroddiadau dichonoldeb cynnar yn fewnol, i ymgorffori rhanddeiliaid mewnol eraill: caffael, cyllid, cyfreithiol, cynllunwyr, a thimau ynni.

Er efallai na fydd “Giât Sero” yn cael ei gymeradwyo yn ystod y cam hwn, bydd angen i chi gael cymeradwyaeth gorfforaethol i symud ymlaen. Gall briff prosiect y Gwasanaeth Ynni helpu i ddarparu’r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddrafftio’r achos busnes cychwynnol. Ar ôl cymeradwyo hwn, efallai y byddwch am ystyried cyfarfod cynnull i adolygu risgiau allweddol i gyflawni, nodi rolau a chyfrifoldebau allweddol, a chytuno ar amserlen lefel uchel. Unwaith eto, mae hwn yn rhan o’r cymorth a gynigir gan y Gwasanaeth Ynni.

Yna mae’n ddefnyddiol i’r grŵp prosiect craidd gyfarfod yn rheolaidd i gynnal momentwm, wrth ddarparu adroddiadau rheolaidd wedi’u trefnu i’ch arweinydd neu’ch Uwch-swyddog Cyfrifol. Roedd y dull hwn yn gweithio’n dda iawn yng Nghaerffili i sicrhau bod pawb yn deall eu rôl yn y prosiect a’u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd perthnasol.

Cam pwysig yn ystod y cyfnod cynnal momentwm hwn yw ymgorffori gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid â’r penderfynwyr allweddol, yn ogystal â phartïon pwysig â diddordeb. Yng Nghaerffili, roedd hyn yn cynnwys y tîm Rheoli Corfforaethol, Aelod o’r Cabinet a holl aelodau’r ward. Cawsant ddiweddariadau misol neu chwarterol, a/neu ddiweddariadau byr pan gyflawnwyd cerrig milltir arwyddocaol. Roedd rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r grŵp hwn o randdeiliaid a sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r prosiect yn ffordd i’r penderfynwyr allweddol oruchwylio’r prosiect ac yn rhoi cysur iddynt ynghylch hynt y prosiect. Yn bwysig ddigon, roedd cynnwys aelodau’r ward ar y pwynt hwn wedi helpu i ganolbwyntio a mireinio cynlluniau cyfathrebu a digwyddiadau rhanddeiliaid.

Gwnaeth Caerffili ymgysylltu’n eang â’r gymuned leol hefyd; roedd gohebiaeth gynnar yn cynnwys hysbysiadau a llythyrau ymwybyddiaeth, ymweliadau â thai â phreswylwyr, digwyddiadau dros dro i randdeiliaid, yn ogystal â’r ymgynghoriad statudol gofynnol.

Fel rhan o’r ymgynghoriad statudol, defnyddiodd Caerffili rai technegau arloesol megis ystafell rithwir. Gofod ar-lein yw hwn lle y gall aelodau’r cyhoedd gael mynediad at ddogfennau allweddol sy’n ymwneud â’r prosiect, cyflwyno cwestiynau a rhyngweithio â thîm y prosiect yn barhaus. Hefyd, cynhaliodd Caerffili ddigwyddiadau ymgysylltu ar-lein dilynol, ac ymwelodd ag ysgolion lleol fel rhan o’r broses ymgynghori statudol a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer y prosiect.

## Ystafell Rithwir i Randdeiliaid







## Digwyddiadau personol i randdeiliaid










Cefnogodd y Gwasanaeth Ynni y prosiect hwn o'i gamau cychwynnol ac wrth gynnal momentwm: gan helpu i fireinio'r strategaeth, rhannu'r hyn a ddysgwyd o brosiectau tebyg, a darparu cymorth technegol i dîm y prosiect, a nodwyd fel bwlch allweddol o fewn y cyngor.

### *1.1.3. Croesi'r llinell derfyn*

O'r diwedd, mae'r diwedd yn agosáu ac rydych wedi rheoli prosiect hyd at ei ddiwedd. Mae'n bosibl eich bod yn barod i drosglwyddo rheolaeth weithredol, neu efallai y bydd eich tîm yn parhau gyda hyn. Mae hwn yn gam pwysig iawn ym mhob prosiect. Isod, rydym yn bwrw golwg ar rai cwestiynau ac astudiaeth achos o sut i reoli'r cyfnod hwn.

- ***A oes gennych gynllun cyfathrebu mewnol ac allanol yn dathlu'r prosiect?***
- ***Ydych chi wedi ystyried sut i ddirwyn gweithgareddau i ben ac, yn bwysig iawn, sut i ddiolch i'r rhai sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect?***
- ***Ydych chi wedi dechrau ymgysylltu ag unrhyw gontractwyr/timau parhaus y mae angen cymorth trosglwyddo arnynt?***
- ***A yw eich rhanddeiliaid wedi nodi canlyniadau/targedau allweddol, ac a ydych yn deall sut i fonitro a chofnodi'r rhain, a pha mor aml?***

### Astudiaeth Achos: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe


Fferm solar Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Llwyddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gomisiynu fferm solar 4 MW wedi'i chysylltu'n uniongyrchol ag Ysbyty Treforys yn 2021. Defnyddiodd y Bwrdd Iechyd dudalen newyddion ei wefan i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y prosiect a chyhoeddi ei fod wedi'i gomisiynu'n llwyddiannus. Gwahoddwyd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James, i ymweld â'r prosiect, gan godi ymwybyddiaeth o lwyddiant y prosiect. Adroddodd nifer o allfeydd newyddion ar y prosiect a'i lwyddiant gan gynnwys y BBC, papur newydd yr Independent, allfeydd newyddion lleol a siopau newyddion masnach (e.e. Solar Power Portal). Ar ôl ei gwblhau, mae tîm Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi bod wrthi'n rhannu gwybodaeth am ei lwyddiannau yn uniongyrchol â byrddau iechyd eraill, ynghyd â sefydliadau yn y sector cyhoeddus a mentrau ynni cymunedol, gan helpu i hysbysu ac ysbrydoli sefydliadau eraill.

**Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Ynni gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau isod:**

E-bost: ymholiadau@gwasanaethynni.cymru

@_gwasanaethynni | gwasanaeth-ynni-llywodraeth-cymru